

## Datganiad Effaith Cymunedol - Graffiti

### Cefndir

- Diffinnir graffiti fel *'Unrhyw farciau, darluniau neu baentiadau anffurfiol neu anghyfreithlon a wneir yn bwrpasol gan berson neu bersonau ar unrhyw elfen ffisegol sydd yn cynnwys yr amgylchedd awyr agored, gyda bwriad o gyfathrebu rhyw neges neu symbol ac ati, i eraill.'*<sup>1</sup>
- Mae'r deunyddiau a ddefnyddir fel arfer i greu graffiti yn cynnwys pennau a phaent chwistrell, tra bod ysgythru yn cynnwys crafu ar wydr, plastig neu baent gan ddefnyddio offer miniog neu ddefnyddio cemegau i losgi neu doddi wyneb.
- Mae creu graffiti yn weithred o niwed troseddol o dan Adran 1 o Ddeddf Niwed Troseddol 1971.<sup>2</sup>
- Mae muriau gwag, dodrefn stryd, polion lampau, blychau ffôn, arosfannau bws, arwyddion ffyrdd, cofebau, pontydd ac eiddo rheilffyrdd i gyd yn dargedau cyffredin ar gyfer graffiti.
- Awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am gael gwared ar graffiti o eiddo cyhoeddus. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw achosion ar eiddo preifat, mae baich a chost glanhau'r broblem yn syrthio ar y perchnogion.

### Graddfa a chost y broblem

- Dangosodd arolygon glendid strydoedd a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus fod graffiti yn bresennol ar 4.6% o strydoedd ar draws Cymru ar gyfartaledd yn 2018-19.<sup>3</sup> Mae hyn yn amrywio o sgribladau pen, tagiau ac ysgythru bach i enghreifftiau helaeth sydd yn amlwg ac yn tynnu sylw. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys murluniau celf cymunedol.\*
- Nodir bod gweithredoedd o niwed troseddol – yn amrywio o fandaliaeth a graffiti i losgi bwriadol – yn digwydd rhywle yng Nghymru bob saith munud a hanner ar gyfartaledd.<sup>4</sup>
- Yn 2015, nododd y Guardian mai cost cael gwared ar graffiti yn y DU yw £1 biliwn y flwyddyn.<sup>5</sup>
- Graffiti yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o fandaliaeth gydag eiddo busnes.<sup>6</sup>

<sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Côd Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

<sup>2</sup> *Ibid.*

<sup>3</sup> Moss, C a Jones, H. (2019). *HOW CLEAN ARE OUR STREETS? All Wales Local Environmental Audit and Management System Report 2018-19*. Ar gael: <https://kwt.eu.rit.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=25600629-fd94-4f62-9d8c-f6579a0da8e0>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>4</sup> Wales Online. (2004). *Vandalism costs Wales millions*. Ar gael: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/vandalism-costs-wales-millions-2435107>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>5</sup> Cathcart-Keays, A. (2015). *Is urban graffiti a force for good or evil?* Ar gael: <https://www.theguardian.com/cities/2015/jan/07/urban-graffiti-force-good-evil>. Defnyddiwyd ddiwethaf 15-10-20.

<sup>6</sup> Business Wales. (2020). *Vandalism*. Ar gael: <https://businesswales.gov.wales/business-crime/tackling-crime/property-crimes/vandalism>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

## Problemau'n cael gwared ar graffiti

- Mae cael gwared ar graffiti yn cyflwyno nifer o heriau:<sup>7,8</sup>
  - Efallai mai paentio dros y graffiti yw'r ateb symlaf ond gall olygu sawl côst os yw'r graffiti wedi cael ei wneud gan ddefnyddio lliwiau tywyll neu lachar.
  - Mae cael gwared ar baent yn aml yn cynnwys defnyddio cemegau cryf.
  - Gall teneuwyr ledaenu'r graffiti sydd yn gwneud i'r broblem edrych yn waeth neu gall adweithio gyda phlastig gan adael ymddangosiad cymylog na ellir cael gwared arno.
  - Mae wynebau mandyllog heb eu paentio yn tueddu i amsugno paent chwistrell yn cynnwys toddyddion sy'n golygu bod angen eu golchi â chwistrell ddŵr bwerus.
  - Mae glanhau graffiti oddi ar frics yn arbennig o anodd ac yn cymryd amser.
  - Gall wynebau fel llenwadau rhwng brics, neu forter gael eu niweidio yn ystod y broses, sydd yn arwain at broblemau pellach sydd angen eu hatgyweirio.
  - Pan mae'r graffiti'n gadarn ar yr wyneb, gall fod angen swndio.

## Effaith ar y gymuned leol

- Mewn arolwg o'r cyhoedd yng Nghymru yn 2010, dywedodd 51% o'r bobl fod graffiti'n cael effaith negyddol ar edrychiad a theimlad ardal, tra bod 19% wedi dweud eu bod yn gweld graffiti yn eu hardal leol yn rheolaidd.<sup>9</sup>
- Cyfeiriwyd at graffiti fel '*llygredd gweledol*'.<sup>10</sup> Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree, mae cymdogaethau â phroblemau amgylcheddol fel graffiti yn '*...ddigalon, yn emosiynol ac am fod problemau helaeth yn lleihau lefelau gofal, yn ogystal â safonau a disgwyliadau*'.<sup>11</sup>
- Gall y gymuned leol deimlo bygythiad yn arbennig gan graffiti sarhaus neu hiliol. Argymhellir bod cael gwared ar graffiti o'r math yma'n cael blaenoriaeth o fewn 24 awr.<sup>12</sup>

<sup>7</sup> The Real Cleaning Co. (n.d.). *How to remove graffiti*. Ar gael: <https://www.realcleaning.co.uk/blog/how-to-remove-graffiti/>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>8</sup> ECMS. (2018). *How to Remove Graffiti from Various Surfaces Correctly*. Ar gael: <https://www.ecms-ltd.co.uk/how-to-remove-graffiti-from-various-surfaces-correctly/>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>9</sup> Beaufort Research (2010). *Litter in Wales: Understanding Littering and Litterers*. (Heb ei gyhoeddi).

<sup>10</sup> Vanderveen, G. a Van Eijk, G. (2016). Criminal but Beautiful: A Study on Graffiti and the Role of Value Judgments and Context in Perceiving Disorder. *European Journal on Criminal Policy and Research*. 22 (1), tud.107-125.

<sup>11</sup> Hastings et al. (2005) *Cleaning Up Neighbourhoods: Environmental Problems and Service Provision in Deprived Areas*.

<sup>12</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Op cit*.

- Mae graffiti yn enghraifft o Drosedd Arwyddol - *'digwyddiad troseddol sydd yn achosi newid yn ymddygiad a/neu gredoau'r cyhoedd am eu diogelwch.'*<sup>13</sup> Mae hyn yn golygu y gall graffiti gynyddu'r ofn o droseddu, gan wneud i bobl deimlo'n anniogel yn eu cymunedau. Cafwyd pryderon, er enghraifft, fod safleoedd aros am fws wedi eu gorchuddio'n sylweddol gan graffiti yng nghyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi annog preswylwyr lleol i beidio â defnyddio'r gwasanaethau bws lleol ac wedi niweidio delwedd y gwasanaeth.<sup>14</sup>

### Effeithiau ehangach

- Mae cost graffiti yn llawer mwy pellgyrhaeddol na'r gost o gael gwared arno.
  - Cost atgyweirio'r niwed a achoswyd gan baentiwr chwistrell wnaeth dagio gorsafoedd a threnau yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr yn ystod tymor yr hydref 2019 oedd £6,700 a bu'n rhaid i'r trên gael ei dynnu allan o wasanaeth er mwyn cael ei lanhau.<sup>15</sup>
  - Datgelodd astudiaeth yn edrych ar yr effaith ar iechyd wrth ddefnyddio deunydd glanhau i gael gwared ar graffiti flinder, cur pen a symptomau'n effeithio ar y llwybr anadlu, y llygaid a'r croen yn y deunydd cael gwared ar graffiti o'i gymharu â'r rheolyddion poblogaeth.<sup>16</sup>
  - Cafodd tri tagiwr graffiti eu lladd gan drên yn ne Llundain ym Mehefin 2018.<sup>17</sup>
- Mae'r Ddamcaniaeth Ffenestri Toredig yn awgrymu bod anhrefn a throseddu yn gysylltiedig mewn trefn ddatblygiadol. Dangosir hyn trwy bresenoldeb ffenestr doredig: *'...os yw ffenestr mewn adeilad wedi torri ac yn cael ei gadael heb ei hatgyweirio, bydd yr holl ffenestri eraill wedi torri cyn hir...mae troseddau stryd difrifol yn ffynnu mewn ardaloedd lle nad yw ymddygiad o anhrefn yn cael ei drin.'*<sup>18</sup> Felly, gan fod presenoldeb graffiti yn gwneud i ardal edrych fel petai wedi ei hesgeuluso, gall ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol arall, gan arwain at droseddau eraill fel tipio anghyfreithlon. Mae ymchwil wedi dangos, er enghraifft, bod mwy na dwbl y bobl yn taflu sbwriel mewn ardal wedi ei gorchuddio â thagiau graffiti, o'i gymharu ag adeg pan oedd yr ardal yn rhydd rhag graffiti.<sup>19</sup>

<sup>13</sup> Prifysgol Caerdydd. (n.d.). *Sefydliad Ymchwil Trosedd a Diogelwch*. Ar gael: <https://www.cardiff.ac.uk/crime-security-research-institute/publications/research-briefings/the-signal-crimes-perspective>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>14</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. (2003). *Strategaeth Fysus Ardal Leol*. Ar gael: [https://www.bridgend.gov.uk/media/4096/local\\_area\\_bus\\_strategy\\_labs\\_2003.pdf](https://www.bridgend.gov.uk/media/4096/local_area_bus_strategy_labs_2003.pdf). Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>15</sup> Hughes, M. (2020). *Vandal caused thousands of pounds worth of damage to trains and railway stations*. Ar gael: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/vandal-caused-thousands-pounds-worth-17707092>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>16</sup> Langworth, S. et al. (2001). Acute health effects common during graffiti removal. *International Archives of Occupational and Environmental Health*. 74 (3), 213-8.

<sup>17</sup> BBC. (2018). *Railway graffiti: Props, respect and death*. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-england-44523953>. Defnyddiwyd ddiwethaf 13-10-20.

<sup>18</sup> Kelling, G. a Wilson, J. (1982). *Broken Windows The police and neighborhood safety*. Ar gael: <https://www.theatlantic.com/magazine/archive/1982/03/broken-windows/304465/>. Defnyddiwyd ddiwethaf 14-10-20.

<sup>19</sup> The Economist. (2008). *Can the can*. Ar gael: <https://www.economist.com/science-and-technology/2008/11/20/can-the-can>. Defnyddiwyd ddiwethaf 14-10-20.

- Mae ymchwil yn dangos bod troseddau fel graffiti yn cael 'effaith negyddol sylweddol' ar brisiau tai.<sup>20</sup>
- Mae graffiti yn felltith ar ein cymunedau ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar ddelwedd Cymru fel cyrchfan wyliau ddeniadol.

\* **Noder:** Dylid gwahaniaethu rhwng graffiti cyffredinol (sef ffocws y ddogfen hon) a chelf stryd. Mae wedi ei brofi bod murluniau celf cymunedol a chelf stryd arall (mae Banksy yn enghraifft nodweddiadol o hyn) yn dod â buddion i'r gymuned leol, yn cynnwys datblygu ymgysylltiad cymunedol, datblygu adfywio trefol, cynyddu prisiau tai a denu ymwelwyr.<sup>21, 22, 23, 24</sup>

Jones, H. Cadwch Gymru'n Daclus, Hydref 2020.

© Cadwch Gymru'n Daclus

<sup>20</sup> BBC. (2004). *House prices boosted by low crime*. Ar gael: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/business/4085769.stm>. Defnyddiwyd ddiwethaf 14-10-20.

<sup>21</sup> URBACT. (n.d.). *Street art murals for urban renewal*. Ar gael: <https://urbact.eu/street-art-murals-urban-renewal>. Defnyddiwyd ddiwethaf 16-10-20.

<sup>22</sup> Garlick, H. (2020). *Graffiti for grown-ups: how street art is pushing up house values*. Ar gael: <https://www.ft.com/content/0f2d2e7c-78b4-11ea-bd25-7fd923850377>. Defnyddiwyd ddiwethaf 16-10-20.

<sup>23</sup> Sorrel, C. (2016). *How Street Art Raises Neighborhood Housing Prices*. Ar gael: <https://www.fastcompany.com/3059595/how-street-art-raises-neighborhood-housing-prices>. Defnyddiwyd ddiwethaf 16-10-20.

<sup>24</sup> Fyfe, W. (2019). *Banksy artwork in Port Talbot sold for 'six-figure sum'*. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-46910294>. Defnyddiwyd ddiwethaf 16-10-20.